Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

# Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles – Datganiad Preifatrwydd/Prosesu Teg

Beth sy’n digwydd i’r w**ybodaeth** sy’n cael ei chadw amdanoch chi**?**

Mae’r ddogfen hon yn esbonio sut mae Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP) yn sicrhau, cadw, defnyddio a datgelu gwybodaeth am bobl (eu data personol) a’r camau rydym yn eu cymryd i sicrhau ei bod yn cael ei gwarchod, a hefyd mae’n disgrifio hawliau unigolion mewn perthynas â’u data personol sy’n cael eu trin gan y Gyfarwyddiaeth.

Rheolir defnyddio a datgelu data personol gan Ddeddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016. O’r herwydd, rhaid i’r Gyfarwyddiaeth sicrhau ei bod yn trin yr holl ddata personol yn unol â’r ddeddfwriaeth.

Rydym yn credu bod y cyfrifoldeb hwn yn eithriadol bwysig ac yn cymryd gofal mawr i sicrhau bod data personol yn cael eu trin yn briodol er mwyn sicrhau a chynnal hyder ac ymddiriedaeth unigolion yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles.

## 1. Ar gyfer beth mae’r wybodaeth rydym yn ei chadw’n cael ei defnyddio?

Mae’r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yn prosesu gwybodaeth bersonol er mwyn darparu amrywiaeth o wasanaethau a chefnogaeth gofal cymdeithasol i bobl leol, sy’n cynnwys y canlynol:

- darparu gofal cymdeithasol a chefnogaeth briodol
- diogelu plant ac oedolion sy’n wynebu risg
- gwneud cais am wasanaethau, cefnogaeth neu fudd-daliadau ar ran unigolyn
- helpu i gynllunio, trefnu a gwella gwasanaethau
- darparu data gofal cymdeithasol yn lleol ac yn genedlaethol at ddibenion
- ystadegol neu ymchwil
- cadw cofnodion
- cefnogi a rheoli ein cyflogeion
- cynnal ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus ac iechyd
- darparu gwasanaethau hamdden a diwylliannol
- cynnal arolygon
- gweinyddu asesiadau ariannol
- casglu refeniw, gan gynnwys grantiau
- gweithgareddau rheoleiddio
- cynnal ymchwil
- swyddogaethau corfforaethol a chefnogaeth ariannol fewnol
- rheoli cofnodion wedi’u harchifo am resymau hanesyddol ac ymchwil

## 2. Pa fath/dosbarthiadau o ddata personol ydym yn eu trin?

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifir o dan adran 1 uchod, efallai y bydd y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yn sicrhau, defnyddio a datgelu data personol sy'n cynnwys y canlynol:

- Gwybodaeth bersonol a sensitif amdanoch chi neu eich plentyn
- Gwybodaeth feddygol
- Manylion teuluol neu wybodaeth am berthnasoedd
- Ffordd o fyw ac amgylchiadau cymdeithasol
- Gwybodaeth am drais domestig
- Manylion/gwybodaeth gwasanaeth
- Manylion ariannol
- Manylion cyflogaeth ac addysg
- Anghenion tai
- Delweddau gweledol, ymddangosiad ac ymddygiad personol
- Gwybodaeth ffeil achos
- Manylion am iechyd corfforol neu feddyliol
- Manylion am anabledd
- Tarddiad hiliol neu ethnig
- Troseddau (gan gynnwys troseddau honedig)
- Credoau crefyddol neu gredoau eraill o natur debyg  Gweithrediadau troseddol, canlyniadau a dedfrydau
- Manylion asesiad risg

Dim ond i gyflawni diben neu ddibenion penodol fydd y Gyfarwyddiaeth yn defnyddio data personol priodol. Gall data personol fod yn wybodaeth sy'n cael ei chadw ar gyfrifiadur, cofnod papur h.y. mewn ffeil, fel lluniau, a hefyd gall gynnwys mathau eraill o wybodaeth a gedwir yn electronig, e.e. lluniau camerâu goruchwylio.

## 3. Am bwy mae gwybodaeth yn cael ei phrosesu?

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifir o dan adran 1 uchod, efallai y bydd y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yn sicrhau, defnyddio a datgelu data personol am y canlynol:

- Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau
- Gofalwyr neu gynrychiolwyr
- Aelodau'r teulu
- Darparwyr gwasanaethau
- Staff, pobl ar gontract i ddarparu gwasanaeth
- Gofalwyr Maeth a Mabwysiadwyr
- Hawlwyr
- Pobl sy'n cwyno neu'n gwneud ymholiadau neu eu cynrychiolwyr
- Cynghorwyr ac ymgynghorwyr proffesiynol
- Tystion

- Troseddwyr a throseddwyr dan amheuaeth
- Pobl sydd wedi'u dal ar gamerâu goruchwylio
- Cynrychiolwyr sefydliadau eraill

Dim ond i gyflawni diben neu ddibenion penodol fydd y Gyfarwyddiaeth yn defnyddio data personol priodol. Gall data personol fod yn wybodaeth sy'n cael ei chadw ar gyfrifiadur, cofnod papur h.y. mewn ffeil, fel lluniau, a hefyd gall gynnwys mathau eraill o wybodaeth a gedwir yn electronig, e.e. lluniau camerâu goruchwylio.

## 4. O ble rydym yn cael data personol?

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifir o dan adran 1 uchod, efallai y bydd y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yn sicrhau data personol o amrywiaeth eang o ffynonellau, gan gynnwys y canlynol:

- Asiantaethau gorfodi'r gyfraith, cynrychiolwyr cyfreithiol, cyfreithwyr
- Llysoedd
- Carchardai
- Heddlu
- Meddygon teulu a gweithwyr gofal iechyd eraill, gan gynnwys staff ysbytai a
- gofal iechyd cymunedol
- Ysgolion
- Mudiadau'r sector gwirfoddol
- Sefydliadau cymeradwy a phobl sy'n gweithio gyda'r Cyngor
- Sefydliadau ar gontract i ddarparu gofal neu wasanaethau cefnogi
- Llywodraeth (Cymru) Ganolog, asiantaethau ac adrannau'r Llywodraeth
- Gwasanaethau brys
- Yr unigolion eu hunain
- Perthnasau, gofalwyr, gwarcheidwaid neu bobl eraill sy'n gysylltiedig â'r  Unigolyn
- Cyflogwyr presennol, cyn-gyflogwyr neu ddarpar gyflogwyr yr unigolyn
- Cynghorwyr neu ymarferwyr gofal iechyd, cymdeithasol a lles
- Sefydliadau addysg a hyfforddiant a chyrff arholi
- Cysylltiadau busnes a chynghorwyr proffesiynol eraill
- Cyflogeion ac asiantau CBSP
- Cyflenwyr a darparwyr nwyddau neu wasanaethau
- Pobl sy'n gwneud ymholiad neu gŵyn
- Sefydliadau a chynghorwyr ariannol
- Addaswyr Colledion, pobl sy'n trin hawliadau allanol
- Tystion
- Ymgynghorwyr meddygol a meddygon teulu
- Sefydliadau arolygu ac ymchwil

- Mudiadau gwirfoddol ac elusennol
- Ombwdsmon ac awdurdodau rheoleiddio
- Y cyfryngau
- Proseswyr Data sy’n gweithio ar ran CBSP
- Gwasanaeth Prawf
- Gwybodaeth sydd ar gael ar y rhyngrwyd  Adrannau eraill y Cyngor.

Hefyd gall y Gyfarwyddiaeth sicrhau data personol o ffynonellau eraill, fel ei chamerâu goruchwylio ei hun, neu ohebiaeth.

## 5. Gofalu am eich gwybodaeth

Bydd y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yn trin data personol yn unol â deddfau diogelu data. Byddwn yn cadw eich gwybodaeth yn ddiogel; dim ond staff sydd angen ei gweld i wneud eu gwaith fydd yn cael mynediad ati. Cedwir gwybodaeth bersonol ar bapur mewn llefydd nad oes modd i’r cyhoedd gael mynediad iddynt. Dim ond staff awdurdodedig sy’n cael defnyddio ein systemau gwybodaeth cyfrifiadurol a rhaid iddynt ddilyn gweithdrefnau diogelwch. Yn benodol, byddwn yn sicrhau bod unrhyw ddata personol yn cael eu trin yn deg ac yn gyfreithlon gyda chyfiawnhad priodol. Byddwn yn ceisio sicrhau bod unrhyw ddata personol sy’n cael eu defnyddio gennym ni, neu ar ein rhan, o’r ansawdd uchaf o ran manwl gywirdeb, perthnasedd, digonolrwydd ac aneithafrwydd, eu bod yn cael eu diweddaru yn ôl yr angen, eu gwarchod yn briodol, eu hadolygu a’u cadw’n ddiogel.

## 6. Sut rydym yn cadw data personol yn ddiogel?

Mae’r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yn credu bod diogelwch yr holl ddata personol sydd dan ei rheolaeth yn bwysig iawn. Byddwn yn sicrhau bod polisïau, hyfforddiant a mesurau technegol a gweithdrefnol priodol yn eu lle, gan gynnwys archwilio a monitro integriti, i warchod ein systemau gwybodaeth maniwal ac electronig rhag colli a chamddefnyddio data, a dim ond pan fo rheswm didwyll dros wneud hynny y byddwn yn caniatáu mynediad atynt, ac wedyn o dan ganllawiau llym o ran y defnydd y gellir ei wneud o unrhyw ddata personol ynddynt. Caiff y gweithdrefnau hyn eu rheoli a’u gwella’n barhaus er mwyn sicrhau diogelwch.

Mae unrhyw wybodaeth rydym yn ei rhannu ag asiantaethau eraill yn cael ei hanfon atynt yn ddiogel a dim ond o dan fesurau rheoli gofalus y caiff ei rhannu ag asiantaethau eraill, i sicrhau mai dim ond yn y ffyrdd a restrir yma mae’n cael ei defnyddio.

## 7. Rhannu eich gwybodaeth

Weithiau mae’n rhaid i’r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles rannu gwybodaeth. Os yw hyn yn angenrheidiol, mae’n ofynnol i ni gydymffurfio â phob agwedd ar y ddeddfwriaeth. Isod mae disgrifiad o’r mathau o sefydliadau y bydd rhaid i ni rannu rhywfaint o’r wybodaeth bersonol rydym yn ei phrosesu gyda hwy:

- Y rhai sy’n darparu gofal a gwasanaethau cefnogi

- Teulu, gofalwyr, cysylltiadau neu gynrychiolwyr y person yr ydym yn prosesu ei ddata personol
- Sefydliadau iechyd neu addysg sy'n cydweithio â ni i ddarparu gwasanaethau a gwarchod unigolion
- Heddlu
- Y gwasanaeth carchardai a'r gwasanaeth prawf
- Gofalwyr maeth a mabwysiadwyr
- Cymdeithasau tai
- Llywodraeth Leol a Chymru
- Adrannau eraill y Cyngor
- Ombwdsmon
- Gwasanaethau rheoleiddiol
- Cynghorwyr ac ymgynghorwyr proffesiynol
- Llysoedd, tribiwnlysoedd, bargyfreithwyr
- Undebau llafur
- Cyrff proffesiynol
- Sefydliadau arolygu ac ymchwil i gefnogi lles yr unigolyn
- Proseswyr data
- Cyrff rheoleiddio
- Asiantaethau a chyrff gorfodi'r gyfraith rhyngwladol
- Asiantaethau partner, sefydliadau cymeradwy ac unigolion sy'n gweithio gyda'r heddlu
- Awdurdodau trwyddedu
- Cyflogwyr presennol, cyn-gyflogwyr neu ddarpar gyflogwyr a chyrff arholi
- Cynrychiolwyr cyfreithiol, cyfreithwyr
- Y gwasanaeth datgelu a gwahardd (DBS)
- Addaswyr Colledion, Gwerthwyr Yswiriant ac Yswirwyr
- Darparwyr Hyfforddiant
- Archwilwyr

## 8. Beth yw eich hawliau o ran eich data personol y mae CBSP yn ei drin?

Mae gan unigolion hawliau amrywiol:

<u>Hawl i fynediad</u>

Gallwch gael, yn amodol ar eithriadau, gopi o'ch data personol a gedwir gan y Cyngor. Mae copi o'r ffurflen gais ar gael gan:
https://cy.eforms.bridgend.gov.uk/gwybodaethbersonol

Dan y Ddeddf, mae hefyd hawl gennych i gael cadarnhad o ran a yw data sy'n ymwneud â chi yn cael ei brosesu gan y Cyngor neu beidio. Pan fo hynny'n wir, mae hawl gennych i gael y wybodaeth ganlynol yn amodol ar eithriadau:

- Diben a sail gyfreithiol prosesu
- Categorïau'r data personol dan sylw
- Derbynwyr y mae'r data personol wedi'i ddatgelu iddynt
- Y cyfnod y rhagwelir y bydd y data personol yn cael ei storio
- Cyfathrebu'r data personol sy'n cael ei brosesu ac unrhyw wybodaeth sydd ar gael am ei darddiad.

**Nodwch fod 'prosesu' yn golygu gweithrediad neu gyfres o weithrediadau a berfformir ar ddata personol megis casglu, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, addasu, newid, dileu, cyfyngu, adalw.*

Gallai fod angen dangos prawf o bwy ydych chi ac unrhyw wybodaeth bellach i leoli'r wybodaeth cyn y gall y Cyngor gydymffurfio â'ch cais.

Dylid gwneud unrhyw gais am y wybodaeth uchod yn ysgrifenedig i'r Swyddog Diogelu Data a bydd y Cyngor yn ymateb ymhen mis.

<u>Cywiro data</u>

Gallwch ofyn i'r Cyngor gywiro data personol anghywir sy'n ymwneud â chi. Os yw'r data yn anghywir gan ei fod yn anghyflawn, rhaid i'r Cyngor ei gwblhau os gofynnwch am hyn.

Dylid gwneud cais yn ysgrifenedig i'r Swyddog Diogelu Data a bydd y Cyngor yn ymateb ymhen mis.

<u>Dileu neu gyfyngu data personol</u>

Gallwch ofyn i'r Cyngor ddileu eich data neu gyfyngu ar brosesu eich data, yn amodol ar eithriadau.

Dylid gwneud ceisiadau i'r Swyddog Diogelu Data. Bydd y Cyngor wedyn yn rhoi gwybod i chi a yw'r cais wedi'i gymeradwyo ac os yw wedi'i wrthod, y rhesymau dros wrthod.

<u>Hawl i beidio â bod yn destun penderfynu awtomataidd</u>

Mae gennych hawl, yn amodol ar eithriadau, i beidio â bod yn destun penderfyniad pan fo wedi'i seilio ar broses awtomataidd a phan fo'n creu effaith cyfreithiol neu effaith sylweddol arnoch chi. Mae gennych hawl i fynegi eich barn a chael esboniad gan y Cyngor o'i benderfyniad ac i'w herio.

Fodd bynnag, dylid nodi nad yw'r hawl hwn yn berthnasol i'r holl benderfyniadau gan fod eithriadau er enghraifft awdurdodiad gan y gyfraith, perfformio contract rydych yn rhan ohono.

### 9. Am faint mae CBSP yn cadw data personol?

Mae'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yn cadw data personol am gyn hired â sydd angen at ddiben neu ddibenion eu cadw, ac mae hyn yn unol â Pholisi Cadw Data y Cyngor.

### 10. Gwybodaeth arall

Gweler y ddolen sydd wedi'i hatodi at wefan Llywodraeth Cymru am y fersiwn byr a'r fersiwn llawn o hysbysiadau preifatrwydd Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth am gasglu a phrosesu data am blant sy'n cael gofal a chefnogaeth a data plant sy'n derbyn gofal gan Lywodraeth Cymru ac Y Cyfrifiad Oedolion sy'n Derbyn Gofal a Chymorth.

https://www.llyw.cymru/y-cyfrifiad-oedolion-syn-derbyn-gofal-chymorth-hysbysiad-preifatrwydd?_gl=1*1m04vbm*_ga*NDIxMTgyODQ2LjE3NzE1ODY1MDk.*_ga_L1471V4N02*czE3NzM2NjczOTMkbzYkZzEkdDE3NzM2Njg3ODUkajYwJGwwJGgw

https://www.llyw.cymru/cyfrifiad-plant-syn-derbyn-gofal-chymorth-cyfrifiad-plant-syn-derbyn-gofal-hysbysiad-prefiatrwydd-0?_gl=1*1fmbdhj*_ga*NDIxMTgyODQ2LjE3NzE1ODY1MDk.*_ga_L1471V4N02*czE3NzM2NjczOTMkbzYkZzEkdDE3NzM2Njg4NDckajYwJGwwJGgw

### 11. Cysylltu â Ni

Gall unrhyw unigolyn sydd â phryderon am y ffordd mae CBSP yn trin ei ddata personol gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn y Cyngor, fel isod:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Y Swyddfa Wybodaeth, Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB.
E-bost foi@bridgend.gov.uk
Rhif Ffôn 01656 643565

Hefyd gallwch fynegi unrhyw bryderon wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru
2il Lawr
Churchill House
Churchill Way
Caerdydd
CF10 2HH
Rhif Ffôn: 02920 678400 Rhif Ffacs: 02920 678399
E-bost: wales@ico.org.uk
Gwefan: https://ico.org.uk/